| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad | Prifysgol Aberystwyth |
| Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad | 1 Awst 2021 hyd at 31 Gorffennaf 2022 ar gyfer 2021/22 |

| Adran 1 – Lefelau Ffioedd | |
|---|---|
| Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu'r penderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ym mhob lleoliad | |
| **Lefel y ffioedd** | **Lleoliad y cwrs** |

Y ffi a godir gan Aberystwyth fydd y lefel uchaf a reoleiddir ar gyfer Israddedigion a myfyrwyr TAR Cartref Llawn Amser a gynhwysir yn y cynllun hwn, a hynny ar gyfer y cyfnod 2022/23 yn unig.

Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd ar gyfer 2021/21 ac am unrhyw gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y ceir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan. Bydd manylion diweddaraf y ffioedd perthnasol yn cael eu nodi yn ein dogfennau cynnig lle.

Mae'r ffioedd ar gyfer rhaglenni Israddedigion a gynigir gan ein Partneriaid Masnachfraint yn cael eu pennu mewn cytundeb â'n partneriaid masnachfraint. Os cynigir y rhain ar lai na'r uchafswm, gallant fod yn destun adolygiad blynyddol, a allai arwain at gynnydd na fydd byth yn fwy na chwyddiant neu 5% o un flwyddyn i'r llall (pa un bynnag sydd isaf).

## Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol

Y ffi a godir gan Aberystwyth fydd y lefel uchaf a reoleiddir ar gyfer Israddedigion a myfyrwyr TAR Cartref Llawn Amser a gynhwysir yn y cynllun hwn, a hynny ar gyfer y cyfnod 2022/23 yn unig. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli lefel uchaf y ffi, sydd yn £9,000 ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi Israddedig a TAR Cartref Llawn Amser ar gyfer blynyddoedd y cwrs yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r cynnydd uchaf mewn ffioedd a bennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfanredol am hyd cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni israddedig yn dair neu bedair blynedd o hyd), ac a yw'r rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Astudio Dramor ai peidio (y ffi gyfredol yw £1,350) neu Flwyddyn mewn Diwydiant (y ffi gyfredol yw £1,800), ac a oes cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant fel yr amlinellir uchod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd y ffi hon yn berthnasol i fyfyrwyr o wledydd yr UE y tu allan i'r DU o 1af Awst 2021.

I raglenni israddedig sydd â blwyddyn integredig yn astudio dramor, codir 15% o uchafswm y ffi a reoleiddir, yn unol â chanllawiau CCAUC, am y Flwyddyn Astudio Dramor.

I raglenni israddedig sydd â blwyddyn integredig mewn diwydiant/ blwyddyn integredig mewn ymarfer proffesiynol, y ffi am y flwyddyn allan yw 20% o uchafswm y ffi a reoleiddir, yn unol â chanllawiau CCAUC.

Gall ffioedd ar gyfer rhaglenni Israddedig a gynigir ar lai na'r uchafswm (gan gynnwys y rhai yn ein partneriaid masnachfraint) fod yn destun adolygiad blynyddol. Ar adeg ysgrifennu, mae rhai cyrsiau a gynhelir gan ein Partner Masnachfraint, Coleg Gwent, yn £7,500.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffioedd ar wefan y Brifysgol yn https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/fees/undergrad/tuition-fees/
Mae Telerau ac Amodau'r Ffioedd, gan gynnwys adran ar gynnydd mewn ffioedd, i'w gweld yn https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/ug-studies/terms-conditions/)

Mae ffioedd dysgu ar gyfer Israddedigion Cartref yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Brifysgol yn diwygio'r holl Ffioedd Dysgu i israddedigion Cartref yn unol ag unrhyw newidiadau a gynghorir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wrth ddatblygu'r holl gyfathrebiadau.